# Siart Lif a Disgrifyddion Swyddi lle mae’r Gymraeg yn Hanfodol/Dymunol

**D.S.**

Dynodir holl Rolau Swyddogion yr Heddlu yn rhai lle mae’r Gymraeg yn Ddymunol (Cymraeg Lefel 2)

Mae rhai rolau arbenigol, e.e. Cyswllt Ysgolion, Cyfieithydd Cymraeg, Arweinydd Polisi'r Gymraeg wedi'u dynodi'n rolau lle mae’r Gymraeg yn Hanfodol.

**Diffiniadau**

"Rheng flaen" - 'Mae rheng flaen yr heddlu yn cynnwys y rhai sydd mewn cysylltiad bob dydd â'r cyhoedd ac sy'n ymyrryd yn uniongyrchol i gadw pobl yn ddiogel a gorfodi'r gyfraith.' *[Ffynhonnell: 'Demanding Times: The Front Line and Police Visibility’ HMIC, 2011]*

"Cymraeg yn hanfodol" – swyddi lle mae'n rhaid i swyddogion yr heddlu neu staff yr heddlu allu defnyddio'r Gymraeg wrth gynorthwyo'r cyhoedd


"Cymraeg yn ddymunol" – swyddi lle byddai'n ddymunol i swyddogion yr heddlu neu staff yr heddlu allu defnyddio'r Gymraeg i gynorthwyo'r cyhoedd

*Gellir trafod hyn gyda rheolwr llinell o dîm arall

I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth, cysylltwch â'n Harweinydd Polisi’r Gymraeg

**Swyddi lle mae’r Gymraeg yn Hanfodol *****

Os yw'r siart lif isod yn cadarnhau'r rôl fel un lle mae’r Gymraeg yn hanfodol, yna cyfeiriwch at y ddogfen ‘Disgrifyddion ar gyfer Lefelau Sgiliau’r Gymraeg o fewn Lluoedd Heddlu Cymru’ islaw'r siart lif i gadarnhau lefel sgiliau’r Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer y rôl. Mae croeso i Reolwyr Llinell gysylltu â'n Harweinydd Polisi’r Gymraeg



A yw'r swydd yn rôl rheng flaen sy'n cysylltu â'r cyhoedd bob dydd?
Ydi
Nac ydi
A oes siaradwr Cymraeg yn y tîm sy'n gallu darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg?
Ydi'r swydd yn cynnwys cysylltu'n rheolaidd â'r cyhoedd?
Ydi
Nac ydi
Swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ***
Ydi
Nac ydi
A oes angen siaradwr Cymraeg arall ar gyfer cydnerthedd?
Pa swydd fydd yn darparu cydnerthedd ar gyfer cyflawni'r gwasanaeth Cymraeg?
Dim
Ydi
Nac ydi
ENW'R SWYDD
Cymraeg yn ddymunol
Swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol***

**Disgrifyddion ar gyfer Lefelau Sgiliau'r Gymraeg o fewn Lluoedd Heddlu Cymru**

| Rhai ffyrdd o ddefnyddio'r Gymraeg yn y llu | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mewn swyddfa** | Yn gallu dweud enwau lleoedd / enwau cyntaf Cymraeg neu arwyddion Cymraeg yn gywir. Yn gallu adnabod adrannau/lleoliadau / rhengoedd yn Gymraeg. Yn gallu cyfarch a chyflwyno eraill yn Gymraeg. | Yn gallu deall hanfod sgwrs yn Gymraeg. Yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol e.e. tasgau gweinyddol neu arferol syml. | Yn gallu deall llawer yn y swyddfa neu mewn cyfarfodydd. Gall gymryd a throsglwyddo negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw yn ystod diwrnod gwaith arferol. | Yn gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd o fewn maes gwaith ei hun a dadlau o blaid neu yn erbyn achos. | Yn gallu cyfweld ag ymgeiswyr Cymraeg am swyddi ac asesu eu haddasrwydd. |
| **Dyletswyddau Swyddogion yr Heddlu** | Yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol drwy ddechrau a diweddu sgwrs. Yn gallu rhoi a derbyn manylion personol. Yn gallu dweud enwau lleoedd / enwau cyntaf neu arwyddion Cymraeg yn gywir. | Yn gallu deall hanfod cais gan y cyhoedd ac ymateb i geisiadau syml. Yn gallu rhoi a derbyn cyfarwyddiadau. | Yn gallu sgwrsio'n rhannol yn Gymraeg ond yn troi at Saesneg mewn trafodaeth ac i roi gwybodaeth fanwl. Yn gallu disgrifio pobl a lleoliadau. | Yn gallu ymdrin â'r cyhoedd yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd yn Gymraeg ond yn troi at Saesneg wrth ddefnyddio terminoleg plismona / technegol. | Yn gallu ymdrin yn effeithiol ag ymholiadau cymhleth gan y cyhoedd neu wrthdaro yn Gymraeg. Yn gallu cyfweld neu holi yn ystod ymchwiliad yn Gymraeg. |
| **Cownter Gorsaf yr Heddlu / Derbynfa / Ar y ffôn** | Yn gallu rhoi cyfarchiad dwyieithog sy'n briodol i'r lleoliad. Gallu cyfarch ymwelwyr a galluogi dewis iaith. | Yn gallu deall ceisiadau am gymorth ac ymateb yn Gymraeg i geisiadau syml. Yn gallu defnyddio'r Gymraeg i drosglwyddo galwadau. | Yn gallu ymateb i ymholiadau cyffredinol dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Yn gallu cymryd manylion neu wneud nodiadau o sgwrs Gymraeg. | Yn gallu ymdrin ag ymholiadau'n effeithiol. Yn gallu deall gwahaniaethau mewn tafodiaith. | Yn gallu ymdrin ag ymholiadau neu gwynion cymhleth neu sensitif gan y cyhoedd ac ymdrin yn hyderus â chwestiynau anghyfeillgar. |
| **Cyfarfodydd Cyhoeddus / Siarad â'r Cyfryngau** | Yn gallu agor a chau cyfarfodydd a chroesawu cyfranogwyr yn ddwyieithog. | Yn gallu cyflwyno ei hun ac eraill gan ddefnyddio enwau, rheng, rôl a lleoliad / sefydliad. Yn gallu cyfrannu mewn cyfarfod yn rhannol yn Gymraeg. | Yn gallu sgwrsio'n rhannol yn Gymraeg ond yn troi at Saesneg wrth drafod manylion busnes craidd, ateb cwestiynau neu wrth ddefnyddio gwybodaeth gymhleth. | Yn gallu cadeirio cyfarfod ac ymateb i gwestiynau yn Gymraeg. Yn gallu disgrifio sefyllfa neu ddigwyddiad yn Gymraeg, ond yn troi at Saesneg am dermau technegol neu blismona. | Yn gallu rhoi cyflwyniad Cymraeg. Yn gallu ateb cwestiynau cymhleth neu anghyfeillgar yn Gymraeg i'r graddau bod ganddo / ganddi'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol. |
| **Ysgrifennu** | Yn gallu ysgrifennu cais cyfeirio syml at gydweithiwr, fel 'A gaf i.... Os gwelwch yn dda?'. | Yn gallu ysgrifennu cais mewn nodyn byr at gydweithiwr neu gyswllt allanol hysbys. | Yn gallu ysgrifennu memos gwybodaeth mewnol, negeseuon e-bost ac ymdrin â cheisiadau rheolaidd. | Gyda chymorth golygyddol, yn gallu ysgrifennu llythyrau, e-bost a phosteri busnes ar gyfer cwsmeriaid allanol. | Yn gallu ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniadau a gwneud nodiadau llawn a chywir mewn cyfarfod. |

Enghraifft gan Heddlu Gwent